
Estyn

estyn.llyw.cymru
estyn.gov.wales

# Adroddiad ar yr ymatebion i ail ymgynghoriad Estyn ar drefniadau arolygu

Ebrill 2017



## 1 Cyflwyniad

Yn hydref 2016, cynhaliodd Estyn yr ail gam yn ei ymgynghoriad cyhoeddus cenedlaethol ar y cynigion ar gyfer y trefniadau i arolygu addysg a hyfforddiant yng Nghymru yn y dyfodol. Cynhaliwyd ymgynghoriad cam 1 blaenorol yn hydref 2015 (Estyn, 2016a) a defnyddiwyd y canlyniadau o'r ymgynghoriad hwnnw i ffurfio'r cynigion newydd ac 'arbrofi' ag arolygiadau yn nhymor yr hydref 2016. Bydd y trefniadau arolygu newydd yn dechrau ym Medi 2017 a bydd y canlyniadau o ymgynghoriad yr ail gam yn helpu i ffurfio'r rhain ymhellach.

## 2 Methodoleg

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar ffurf holiadur a oedd ar gael i'w lenwi naill ai ar-lein neu all-lein ar ddogfen Word i'w ddychwelyd trwy'r e-bost neu'r post. Lansiwyd yr arolwg gan Estyn ar 1 Tachwedd 2016 ac fe'i caewyd ar 30 Tachwedd 2016.

## 3 Proffil ymatebwyr i'r ymgynghoriad

Cafodd Estyn 573 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Fodd bynnag, dilëwyd un ymateb oherwydd tybiwyd nad oedd yn ymateb difrifol i'r holiadur. O'r 572 oedd yn weddill, ymatebodd 569 i'r holiadur ac nid atebodd tri ohonynt yr holiadur ac roeddent yn ymatebion ysgrifenedig ffurf rydd ynglŷn â'r trefniadau arolygu newydd. O ganlyniad, roedd maint y sampl derfynol yn cynnwys 569 o ymatebion i holiadur yr ymgynghoriad ac roedd tri ohonynt yn ymatebion ysgrifenedig ffurf rydd.


Y grŵp mwyaf cyffredin o bobl i ymateb i'r holiadur oedd gweithwyr proffesiynol addysgol, a nododd 82% o ymatebwyr eu bod yn rhan o'r grŵp hwn. Yn ychwanegol, roedd 7% o ymatebion gan rieni neu ofalwyr, roedd 1% gan ddysgwyr, ac 1% gan aelodau'r cyhoedd. O'r 9% o bobl a nodwyd yn y categori 'arall', y grŵp mwyaf cyffredin a nodwyd oedd llywodraethwyr ysgol. O'r 569 o ymatebion i'r holiadur, nododd 98 eu bod yn ymateb fel cynrychiolydd ar ran sefydliad. Lledaenwyd y 98 ymateb hyn rhwng y 'gweithiwr proffesiynol addysgol' a grwpiau 'eraill'. Roedd y grwpiau a gynrychiolwyd yn yr ymatebion hyn yn cynnwys ysgolion, elusennau, undebau, awdurdodau lleol, esgobaethau, a sefydliadau eraill sy'n ymwneud â chefnogi ysgolion a gweithio ochr yn ochr â nhw. Cyfeirir at farn y grwpiau hyn trwy gydol yr adroddiad fel grŵp ar wahân, yn ogystal â rhan o'r farn gyffredinol, gan ei bod yn bwysig cofio eu bod yn mynegi safbwyntiau ar ran grŵp mawr o bobl, er mai un ymateb yn unig a gafwyd.

## 4 Canlyniadau

### 4.1 Y Fframwaith Arolygu Cyffredin

Yn gyntaf, rhoddwyd gwybodaeth i gyfranogwyr yr arolwg am bob un o'r pum maes arolygu arfaethedig newydd ar gyfer y Fframwaith Arolygu Cyffredin. Gofynnwyd iddynt i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â phob un o'r pum maes arolygu arfaethedig. Gellir gweld y canlyniadau o'r cwestiynau hyn yn Ffigur 1. Nododd rhwng 86% a 90% o gyfranogwyr eu bod yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â phob un o'r meysydd arolygu.

Ffigur 1: Meysydd arolygu arfaethedig newydd




Roedd patrwm y canlyniadau yn debyg ar gyfer ymatebion y grwpiau, ac roedd rhwng 85% ac 87% o'r grwpiau naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf â phob un o'r meysydd arolygu arfaethedig.

Roedd rhai ymatebwyr yn rhannu barn y dylai Estyn fod yn ofalus wrth ddefnyddio chwarteli meincnod, yn enwedig gyda charfan fach neu ysgol. Teimlwyd y dylai Estyn ystyried ystod o ffactorau sy'n dylanwadu ar ysgol a'r dysgwyr, gan gynnwys cefndir a photensial dysgwyr, a'u man cychwyn ac unrhyw anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Yn ychwanegol, teimlwyd y dylid ystyried sut caiff y disgyblion mwy abl eu herio. Awgrym cyffredin ar gyfer gwella ym maes safonau ar gyfer ysgolion oedd y dylid rhoi mwy o bwyslais ar gynnydd neu ddata gwerth ychwanegol.

Cafwyd llawer o gefnogaeth i'r maes arolygu lles ac agweddau at ddysgu trwy'r adrannau sylwadau; roedd ymatebwyr yn teimlo ei bod yn bwysig ystyried iechyd a lles dysgwyr, yn ogystal â'r cysylltiadau pwysig a geir rhwng lefel uchel o les a'r gallu i

ddysgu. Roedd sylwadau'n cynnwys yr awgrym y gallai'r maes arolygu hwn gynnwys cyfeiriad penodol at wrth-fwlio i'w wella. Yn ychwanegol, teimlai rhai ymatebwyr, gan gynnwys un ymateb gan undeb, y dylid cyfeirio at les y staff yn yr ysgol, yn ogystal â'r dysgwyr. O fewn y ffocws ar agweddau at ddysgu, roedd pryder cyffredin ynglŷn â'r pwyslais ar bresenoldeb. Teimlwyd y dylid rhoi mwy o ystyriaeth i'r rhesymau y tu ôl i bresenoldeb isel; er enghraifft, mewn rhai ysgolion, mae cyfraddau absenoldeb yn uwch pan fydd cyfran fwy o ddysgwyr yn cael amser o'r ysgol ar gyfer gwyliau crefyddol, neu ddarparwyr mewn mannau mwy anghysbell lle mae angen i ddysgwr gael diwrnod llawn o'r ysgol i fynychu apwyntiadau o ganlyniad i'r pellter sydd ei angen i deithio. Awgrymwyd y dylid rhoi mwy o ffocws ar y dulliau y mae'r ysgolion yn eu defnyddio i wella presenoldeb a barnu ar sail hyn yn lle.


### 4.2 Barnau arolygu

Mae Estyn yn cynnig newid y pedwar gair barn presennol (rhagorol, da, digonol ac anfoddhaol) i'r pedwar gair barn newydd, a bydd gan bob un ohonynt ddisgrifiwr newydd, sef:

- Rhagorol
- Da
- Digonol, angen gwelliant
- Anfoddhaol, angen gwelliant ar frys

Gofynnwyd i gyfranogwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno â'r geiriau a'r disgrifwyr barn newydd (gweler Ffigur 2). Roedd bron i 70% o gyfranogwyr naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r cynnig newydd hwn, ac roedd 25% yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf.

Ffigur 2: Cynnig ar gyfer barnau a disgrifwyr arolygu newydd





Roedd y mater mwyaf cyffredin a nodwyd ynglŷn â'r geiriau a'r disgrifwyr barn yn canolbwyntio ar y farn: 'digonol, angen gwelliant'. Roedd y pryderon am y farn hon yn cynnwys y ffaith nad oeddent yn hoffi'r gair 'digonol', yn teimlo bod 'digonol' yn rhy negyddol, ac yn teimlo bod y farn yn gwrth-ddweud nad yw'r gair 'digonol' yn cynrychioli tanberfformio, ond bod 'angen gwelliant' yn cynrychioli hynny. Awgrymwyd geiriadau eraill, gan gynnwys y gair 'boddhaol' yn lle, neu roi'r gorau i ddefnyddio'r gair 'digonol' a chadw'r farn 'angen gwelliant'. At ei gilydd, cafwyd ymateb cadarnhaol i'r awgrym i ddileu'r ymadrodd 'arfer sy'n arwain y sector' o'r farn rhagorol, ac roedd ymatebion yn dangos bod hyn yn gwneud 'rhagorol' yn farn fwy ymarferol i'w chyflawni. Fodd bynnag, thema arall trwy'r ymatebion ysgrifenedig oedd fod rhai o'r disgrifwyr yn rhy fras ac y gellid goresgyn hyn trwy gyflwyno mwy o gategorïau barn.

Roedd ymatebion y grwpiau yn debyg iawn i'r canlyniadau cyffredinol a welwyd, gyda 68% o'r ymatebion naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r geiriau arolygu arfaethedig. Fodd bynnag, mae'n werth nodi bod tri o'r pum undeb a ymatebodd yn anghytuno â'r pum gair a disgrifiwr barn. Codwyd pryderon gan yr undebau addysgu am y farn 'digonol, angen gwelliant', a'r cysylltiadau negyddol y canfyddir eu bod yn bodoli â'r farn 'digonol'. Cynigiodd un undeb y gellid newid i bum gair barn yn lle, gyda 'digonol' yn cael ei ddisgrifio fel 'cryfderau'n gorbwyso gwendidau', ac 'angen gwelliannau' yn cael ei ddisgrifio fel 'meysydd pwysig sydd angen gwelliannau'. Yn ychwanegol, codwyd pryder nad yw'r disgrifwyr yn ddigon clir yn eu hawl eu hunain. Mewn cyferbyniad ag ymatebion undebau, roedd tri o'r pedwar ymateb gan awdurdodau lleol / cynghorau sir yn cytuno â'r geiriau a'r disgrifwyr barn arfaethedig.

Mae gan Estyn bymtheg o farnau mewn adroddiad arolygu ar hyn o bryd. Mae'r cynigion newydd yn amlinellu mai un farn yn unig fydd yn erbyn pob un o'r pum maes arolygu a amlinellir yn 4.1 uchod. Gofynnwyd i gyfranogwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i lunio'r pum barn yn unig (gweler Ffigur 3). Roedd wyth o bob deg ymateb yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cynigion hyn.


Ffigur 3: Cynnig i gael barnau yn erbyn y pum maes arolygu yn unig




Roedd patrwm y canlyniadau o'r grwpiau yn cyd-fynd â'r ymatebion a ddangosir uchod, gyda 63% naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cynigion, a 12% yn anghytuno.

Yn ychwanegol, gofynnwyd i ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno â chynnig i gael datganiad cryno yn yr adroddiad, yn hytrach na barn, ar effeithiolrwydd cyffredinol, ac un arall ar ragolygon gwella (gweler Ffigur 4). Roedd 74% o'r ymatebion naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cynigion hyn.

Ffigur 4: Cynnig ar gyfer datganiad cryno ar effeithiolrwydd a rhagolygon gwella




Eto, roedd patrwm y canlyniadau o ymatebion y grwpiau yn debyg, gyda 61% yn cytuno neu’n cytuno’n gryf â’r cynnig, ac 16% yn anghytuno.

Roedd y sylwadau i gefnogi datganiad cryno yn amlygu’r ffaith y byddai’n haws i rieni ei ddeall ac yn fwy defnyddiol i bobl sy’n darllen yr adroddiadau. Fodd bynnag, teimlai ymatebwyr eraill ei bod yn bwysig cael barn gyffredinol er mwyn i bobl allu deall yn gyflym pa mor dda y mae’r darparwr yn gwneud.

### 4.3 Gweithgarwch dilynol

Mae Estyn yn ystyried dull mwy hyblyg ar gyfer gweithgareddau dilynol er mwyn gallu gweddu’r rhain yn fanwl i anghenion yr ysgol neu’r darparwr ôl-16. Yn gyntaf, rhoddwyd gwybodaeth i’r ymatebwyr am y trefniadau dilynol arfaethedig ar gyfer ysgolion, gan gynnwys cymorth cynnar, trefnu ymweliadau i weddu i anghenion darparwyr, a mwy o gymorth i ysgolion mewn categorïau statudol. Wedyn, gofynnwyd iddynt i ba raddau yr oeddent yn cytuno â’r cynigion dilynol hyn ar gyfer ysgolion (gweler Ffigur 5). Roedd cefnogaeth gref i’r cynigion hyn, gydag 82% o’r ymatebion naill ai’n cytuno neu’n cytuno’n gryf â’r cynigion dilynol hyblyg hyn.


Ffigur 5: Cynnig ar gyfer gweithgarwch dilynol mwy hyblyg mewn ysgolion




Roedd ymatebion y grwpiau yn dilyn yr un patrwm â’r ymatebion cyffredinol yn Ffigur 5, gyda 70% yn cytuno, ac 1% yn unig yn anghytuno â’r cynnig. Nododd cyfran uwch o’r grwpiau nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno na’r ymatebion yn gyffredinol, gyda 20% yn dewis yr opsiwn hwn.

Yn ychwanegol, cynigiodd yr ymgynghoriad y dylid rhoi pwyslais cryfach ar arweinyddiaeth wrth ystyried a oedd angen i Estyn fonitro’r ysgolion ymhellach. Mae Estyn yn cynnig, os oes gan ysgol ddiffygion, ond pan fydd arweinwyr yn dangos bod ganddynt y gallu i fynd i’r afael â’r diffygion hyn a gwella’r ysgol, na fyddant yn disgyn i gategori gweithgarwch dilynol fel mater o drefn, a byddai disgwyl iddynt fynd i’r afael â’r pryderon heb weithgarwch monitro pellach. Gofynnwyd i gyfranogwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno â’r pwyslais cynyddol hwn ar arweinyddiaeth wrth benderfynu p’un a oes angen i ddarparwr gael ei fonitro ymhellach (gweler Ffigur 6). Roedd ychydig dros 80% o ymatebion naill ai’n cytuno neu’n cytuno’n gryf â’r cynigion hyn ynglŷn â ffocws cynyddol ar arweinyddiaeth.

Ffigur 6: Cynnig i roi mwy o ffocws ar arweinyddiaeth wrth ystyried monitro pellach ar gyfer ysgolion





Roedd patrwm y canlyniadau o ymatebion y grŵp yn gyffelyb i batrwm yr holl ymatebwyr, gyda bron i 70% o ymatebion y grwpiau naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cynigion.  Fodd bynnag, ni fynegodd mwy o'r grwpiau farn, a nododd 28% nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno.

Er y bu llawer o gefnogaeth i'r cynnig hwn i ganolbwyntio'n gynyddol ar arweinyddiaeth wrth ystyried a oes angen monitro ysgol, codwyd meysydd pwysig i'w hystyried mewn sawl ymateb.  Er enghraifft, roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y dylid rhoi mwy o ystyriaeth i ansawdd yr addysgu nag arweinyddiaeth, tra oedd ymatebwyr eraill yn teimlo y dylid ystyried materion diogelu fel y peth pwysicaf wrth ystyried a oes angen monitro ysgol.  Mynegwyd pryderon hefyd am rôl penaethiaid dros dro a lefel y cymorth a ddarperir gan wahanol awdurdodau lleol i ddarparu ar gyfer pennaeth parhaol cyn gynted ag y bo modd.

Yn y sector ôl-16, cynigiodd yr ymgynghoriad hefyd y bydd yna ddull mwy hyblyg ar gyfer gweithgarwch dilynol, gan gynnwys gyda mwy o ffocws ar arweinyddiaeth.  Gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno â'r trefniadau dilynol hyblyg hyn yn y sector ôl-16 (gweler Ffigur 7).  Roedd ychydig dros 60% o'r ymatebion naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cynnig hwn.  Er bod y ganran sy'n cytuno yn is nag ydyw ar gyfer cwestiynau eraill, dylid nodi bod 33% naill ai wedi ymateb trwy ddweud nad oeddent yn gwybod, neu nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno, a 6% ohonynt yn unig a oedd yn anghytuno â'r cynigion.

Ffigur 7: Cynnig ar gyfer gweithgarwch dilynol ôl-16 mwy hyblyg





Roedd patrwm y canlyniadau o'r grwpiau eto yn debyg i'r ymatebion cyffredinol, gyda 66% naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cynnig.

## 4.4 Arolygu darpariaeth Safon Uwch/darpariaeth alwedigaethol mewn dosbarthiadau chwech

Yn gyntaf, gofynnwyd i ymatebwyr a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno y dylid arolygu safonau a darpariaeth chweched dosbarth mewn ysgolion uwchradd (gweler Ffigur 8). Roedd wyth o ddeg o'r ymatebion naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cynnig hwn, a 3% ohonynt yn unig oedd yn anghytuno.


Ffigur 8: A ddylid arolygu dosbarthiadau chwech fel rhan o'r arolygiad ysgol?




Eto, gwelwyd yr un patrwm canlyniadau yn ymatebion y grwpiau yn unig, gyda 75% o'r grwpiau naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cynnig i arolygu darpariaeth chweched dosbarth.

Wedyn, gofynnwyd i'r ymatebwyr, os yw dosbarthiadau chwech yn cael eu harolygu, a ddylai hyn arwain at adran a barn ar wahân yn yr adroddiad (gweler Ffigur 9). O'r ymatebwyr, roedd 68% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r awgrym hwn, gydag 8% yn unig yn anghytuno.

Ffigur 9: A ddylai arolygiadau chweched dosbarth arwain at adran a barn ar wahân yn yr adroddiad?




Roedd patrwm yr ymatebion gan y grwpiau yn debyg i weddill yr ymatebion, gydag ychydig dros 60% naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r cynnig hwn a 4% yn unig yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf.

Cafwyd ymatebion ysgrifenedig cymysg ynghylch arolygu dosbarthiadau chwech. Roedd ymatebwyr oedd yn credu y dylid eu harolygu yn teimlo ei bod yn bwysig i hyn ddigwydd i sicrhau bod addysgu o ansawdd da ar draws yr ysgol a sicrhau cysondeb ar draws y sector ôl-16. Fodd bynnag, amlygwyd anhawster â'r dull hwn hefyd gan fod

meintiau gwahanol o addysgu chweched dosbarth yn cael ei gyflwyno trwy rwydweithiau lleol ac ystod o ddarparwyr. Mae ymatebion yn amlygu bod y fantais o arolygu'r ddarpariaeth chweched dosbarth ar wahân yn golygu y gellir cymharu sectorau ôl-16 amrywiol a bod hyn yn helpu dysgwyr i fod yn fwy gwybodus wrth ddewis eu darpariaeth ôl-16. Fodd bynnag, mae pobl eraill yn teimlo, gan fod y chweched dosbarth yn rhan o ysgol, y dylid ei arolygu ochr yn ochr â gweddill yr ysgol i gael barn ysgol gyfan.

### 4.5 Meysydd ychwanegol i'w hystyried

Thema gyffredin o'r ymatebion i'r ymgynghoriad oedd y ffordd y cynhelir arolygiadau ysgol. Awgrymodd rhai cyfranogwyr y dylid lleihau'r cyfnod rhybudd am arolygiadau, neu na ddylid rhoi unrhyw rybudd am arolygiadau o gwbl. Os caiff hyn ei fabwysiadu, teimlwyd y byddai'n lleihau maint y gwaith papur cyn yr arolygiad, lleihau straen ar y staff yn ystod y cyfnod cyn yr arolygiad, a rhoi darlun mwy cywir o redeg yr ysgol bob dydd. Fodd bynnag, mae ymatebion un o'r undebau addysgu yn nodi, gan nad oedd lleihau'r cyfnod rhybudd am arolygiad yn rhan o'r ymgynghoriad hwn, y dylid gwneud newidiadau i hyn heb ymgynghoriad ffurfiol ar y mater hwn. Awgrym pellach oedd y dylid arolygu ysgolion ffederasiwn i gyd yr un pryd â'i gilydd.

Cadarnhaodd rhai sylwadau fod camsyniadau ynglŷn â dogfennau arolygu yn parhau. Teimlai rhai ymatebwyr y dylai arolygiadau fod yn fwy cefnogol ac y gellid newid y broses ar gyfer cynnwys gwahanol bobl yn yr arolygiad, er enghraifft cael sgyrsiau un-i-un neu arolygon cyfrinachol ar gyfer athrawon, cael arolygon llywodraethwyr, a gwella'r holiaduron presennol ar gyfer rhieni a disgyblion i sicrhau bod y cwestiynau mwyaf perthnasol yn cael eu gofyn.

Codwyd pryderon ychwanegol am gyllidebau a phroblemau isadeiledd mewn rhai ysgolion a'r effaith ddilynol y gallai hyn ei chael ar farnau arolygu. Dywedodd rhai ymatebwyr y dylid nodi y gellid ond gwneud rhai gwelliannau o fewn y mathau hyn o gyfyngiadau ariannol nad oes gan yr ysgol reolaeth drostynt bob amser.

Amlygodd ymatebwyr o'r sector addysg bellach hefyd fod y wybodaeth a ddarparwyd ar gyfer yr ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio ar ysgolion, ac felly roedd angen mwy o eglurder ar y modd y byddai'r newidiadau hyn yn ymwneud â'r sector addysg bellach. Roedd rhai o'r gwahaniaethau rhwng ysgolion a'r sector addysg bellach yr oedd ymatebwyr yn credu y dylid eu hystyried wrth lunio'r cynigion arolygu newydd, yn cynnwys gwahanol gwricwla, ffocws gwahanol o fewn lles ar gyfer yr ystod oedran wahanol mewn addysg bellach, sut byddai presenoldeb yn cael ei fesur yn y sector dysgu yn y gwaith, ystod fwy amrywiol y dysgwyr mewn addysg bellach a dysgu yn y gwaith. Yn ychwanegol, teimlwyd bod angen rhoi mwy o ystyriaeth i unedau cyfeirio disgyblion, ysgolion arbennig a meithrinfeydd nas cynhelir gan eu bod, ynghyd â'r sector addysg bellach, yn cynnwys gwahaniaethau amlwg gyda'r ysgolion y canolbwyntiwyd arnynt yn bennaf yn y cynigion.

### 4.6 Casgliad a'r camau nesaf

At ei gilydd, roedd cefnogaeth amlwg i'r trefniadau arolygu arfaethedig newydd a gyflwynwyd trwy gydol yr ymgynghoriad. Roedd cefnogaeth gref ar gyfer y pum maes arolygu arfaethedig newydd, ynghyd â'r trefniadau arfaethedig newydd ar gyfer gweithgarwch dilynol, ac arolygiadau chweched dosbarth arfaethedig. Roedd cefnogaeth hefyd ar gyfer y barnau a'r disgrifwyr arolygu arfaethedig newydd, er bod pryderon wedi cael eu codi ynglŷn â'r farn 'digonol, angen gwelliant'. Mae angen cwblhau rhagor o waith hefyd wrth ystyried darparwyr ôl-16, gan fod yr ymgynghoriad presennol wedi canolbwyntio'n bennaf ar arolygiadau yn yr ysgol.
Mynegwyd sawl camsyniad am y modd y mae Estyn yn arolygu ar hyn o bryd gan gryn dipyn o ymatebwyr. Mae hyn yn awgrymu bod angen i ni wneud mwy o waith ar ein hymgyrch chwalu'r chwedlau wrth i ni symud tuag at roi ein trefniadau arolygu newydd ar waith. Mae arolygiadau peilot yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd a bydd y canlyniadau o'r ymgynghoriad hwn yn cael eu defnyddio i ffurfio unrhyw newidiadau i'r trefniadau hyn. Bydd y trefniadau arolygu newydd yn cael eu cwblhau yng Ngwanwyn 2017 a byddant yn dechrau ym Medi 2017.

### Cyfeiriadau

Estyn (2016a) *Adroddiad ar yr ymateb i'r ymgynghoriad ar y modd y mae Estyn yn arolygu addysg a hyfforddiant yng Nghymru.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.gov.wales/sites/default/files/documents/Adroddiad%20ar%20yr%20ymateb%20i%C3%A2%C2%80%C2%99r%20ymgynghoriad%20ar%20y%20modd%20y%20mae%20Estyn%20yn%20arolygu%20addysg%20a%20hyfforddiant%20yng%20Nghymru_0_0.pdf [Defnyddiwyd 10 Chwefror 2017]

Estyn (2016b) *Arlygu Eglurhad.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/Updated%20-%20Inspection%20Clarified%20%28Cymraeg%29.pdf [Defnyddiwyd 7 Mawrth 2017]